# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 6 Rhan 1)**
**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 2008-09**

**Dyddiad:** 1 Mehefin 2009
**Amser:** 13:30
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r awdur a rhif cyswllt:** Craig Stephenson, est 8230

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 2008-09

***Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi paratoi'r papur hwn i'w ystyried. Barnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi yn dilyn ystyriaeth o'r fath, yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir cyhoeddi na datgelu cynnwys y papur hwn cyn pryd gan y gallai hyn gamddylanwadu ar drafodion y Comisiwn.***

### 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion dan sylw

1.1 Mae'n ofynnol bod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cynulliad yn darparu sicrwydd i Gomisiwn y Cynulliad a'r Prif Weithredwr a Chlerc, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ar ystod o faterion gan gynnwys risg, rheolaethau a llywodraethu, ymateb y rheolwyr i argymhellion archwiliadau a'r broses cyfrifon. Mae'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2008-09 yn Atodiad A yn manylu mwy ar gylch gwaith y Pwyllgor ac yn llunio rhan bwysig o'r fframwaith llywodraethu cyffredinol.

### 2.0 Argymhellion

2.1 Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2008-09 y bydd Richard Calvert, ei Gadeirydd, yn ei gyflwyno.

**NAFWC 2014 (Papur 6 Rhan 1)**
**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 2008-09**

**Atodiad A**
**Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**
**Corporate Governance Committee**

**Adroddiad Blynyddol: 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009**

## 1. Diben

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Gomisiwn y Cynulliad am waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2008-2009.

## 2. Cefndir

Dyma ail adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 6 Rhagfyr 2007 a 31 Mawrth 2008.

Rôl y pwyllgor yw darparu sicrwydd i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ar:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaethau a llywodraethu a'r Datganiad Rheolaeth Fewnol;
- y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr Archwilydd Cyffredinol;
- y gweithgareddau cynlluniedig a chanlyniadau'r archwiliad mewnol a'r archwiliad allanol;
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion y mae gweithgareddau archwilio wedi'u nodi, gan gynnwys llythyr rheoli'r archwiliad allanol oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru;
- gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y Comisiwn;
- cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu am brynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio oddi wrth gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio; a
- pholisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

Mae aelodaeth y Pwyllgor yn 2008/2009 wedi parhau yr un fath:

Richard Calvert (Cadeirydd)
Tim Knighton
Yr Athro Robert Pickard
William Graham AC

**Atodiad A**

Mae'r Prif Weithredwr, sef y Swyddog Cyfrifyddu, yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ynghyd ag eraill trwy wahoddiad. Mae Uned Gorfforaethol y Cynulliad yn darparu gwasanaethau Ysgrifenyddiaeth.

## 3. Materion y bu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn eu hystyried

Nododd adroddiad blynyddol cyntaf y Pwyllgor y byddai gwaith y Pwyllgor yn 2008/2009 yn cynnwys:

- ystyried y cyfrifon blynyddol cyntaf a gynhyrchwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer 2007/8;
- darparu cyngor ynglŷn â sicrwydd sy'n cefnogi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol;
- adolygu mesurau a roddwyd ar waith i ddarparu diogelwch data; a
- chyngor ar ddatblygu cynllun parhad busnes.

Cyfarfu'r Pwyllgor ar bum achlysur yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r rhaglen waith gytunedig.

### Cyfrifon Blynyddol

Ystyriwyd cyfrifon drafft ar gyfer 2007/2008 yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd fis Mehefin a mis Gorffennaf. Nododd y Pwyllgor yr ymdrech sylweddol y bu ei hangen i gwrdd â'r amserlen ormesol ar gyfer y cyfrifon, a'r cynnydd da a wnaeth y tîm cyfrifon ar y cyfan. Gwnaethant nodi nad oedd y datganiad cyfunol ar gostau gweithredu yn ôl nod ac amcan yn adlewyrchu pum nod strategol y Cynulliad oherwydd cyflwynwyd y rhain rhan o'r ffordd trwy flwyddyn gyntaf bodolaeth y Comisiwn, ac roeddent yn falch bod hyn wedi'i ymgorffori yn y broses o gynllunio cyllideb ar gyfer cyfrifon 2008/2009. Yng nghyfarfod mis Hydref, bu'r Pwyllgor yn ystyried Llythyr Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru. Rhoddodd hwn hefyd adborth cadarnhaol ynglŷn â'r broses, gan nodi nifer o wersi ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Yng nghyfarfod mis Chwefror 2009, nododd y Pwyllgor y gweithredu ger pob un o'r deg argymhelliad a wnaed yn y llythyr, ac roedd yn fodlon â'r cynnydd a wnaed. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi bod y rhyngweithio rhwng y Pwyllgor a staff y Comisiwn wrth gau pen y mwdwl ar y cyfrifon blynyddol yn enghraifft o arfer da.

### Datganiad Rheolaeth Fewnol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried datganiadau drafft ym mis Ebrill a mis Mehefin, a nododd nifer o feysydd lle gellid ehangu'r Datganiad er mwyn disgrifio'r camau a gymerwyd i sicrhau bod rheoli risg wedi'i ymgorffori yn y prosesau busnes. Yng nghyfarfod mis Gorffennaf, trafodwyd drafft pellach a oedd yn adlewyrchu gwaith a wnaed ar ddiogelwch gwybodaeth, amgryptiad a lledaenu arfer da o ran diogelu data. Cadarnhaodd y Pwyllgor fod y Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cwmpasu'r holl feysydd disgwyliedig a'i bod yn ymddangos bod holl elfennau'r datganiad wedi'u hystyried yn drylwyr. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, mae'r broses sicrwydd wedi parhau, a bu aelod annibynnol o'r

**NAFWC 2014 (Papur 6 Rhan 1)**
**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 2008-09**

## Atodiad A

Pwyllgor yn ystyried y datganiadau sicrwydd drafft ac yn rhoi cyngor i'r tîm rheoli ar eu cynnydd.

## Diogelwch Data

Trafodwyd diogelwch gwybodaeth a data trwy gydol y flwyddyn, gyda'r Pwyllgor yn sicrhau bod cyngor llywodraeth ganolog, a ddaeth yn sgil methiannau diogelwch data proffil uchel yn ddiweddar, ar gael. Ceisiodd y pwyllgor sicrwydd o ran y Cynulliad yn mabwysiadu amgryptiad, gan gynghori y dylid datblygu cofrestr asedau gwybodaeth. Datblygwyd hyn a'i ystyried yng nghyfarfod olaf y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r dull o weithredu a fabwysiadwyd, a chytunodd ar y camau nesaf. Bydd y rhain yn cynnwys archwilio'r gofrestr i nodi unrhyw broblemau â chydymffurfio â diogelwch data a mynd i'r afael â nhw, a chofnodi'r lefel risg gysylltiedig.

## Cynllunio Parhad Busnes

Darparodd y Pwyllgor gyngor ar gynllunio parhad busnes, a nododd y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cynllun gan ddwyn sylw at bwysigrwydd ei roi ar brawf i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau gofynnol.

## Rheoli Risg

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ddiddordeb penodol yn y strategaeth rheoli risg a bu un o aelodau annibynnol y Pwyllgor yn cymryd rhan mewn gweithdai rheoli risg lle roedd staff y Cynulliad yn bresennol. Roedd y pwyllgor yn hynod falch o weld ymgysylltiad cynyddol staff yn y broses rheoli risg. Mae'r dull o drin risg wedi parhau i aeddfedu yn ystod y flwyddyn, wrth i'r Bwrdd Rheoli a'r staff addasu'r systemau rheoli risg yng ngoleuni profiad.

## Archwilio mewnol

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau archwilio mewnol ar y meysydd a ganlyn:

- Rheoli Risg;
- Llywodraethu Corfforaethol;
- Taliadau i Gredydwyr;
- Caffael;
- Diogelwch Data;
- Rheolaethau Ariannol Allweddol;
- Rheoli Asedau TG; a
- Gweithredu yn sgil archwiliadau blaenorol.

**NAFWC 2014 (Papur 6 Rhan 1)**
**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 2008-09**

**Atodiad A**
Mae'r adroddiadau hyn yn darparu lefel foddhaol o sicrwydd i'r Pwyllgor ynglŷn â'r amgylchedd rheolaeth cyffredinol yng Nghomisiwn y Cynulliad, ac mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon â'r cynnydd a wnaed wrth symud ymlaen â'r argymhellion yn yr adroddiadau archwilio mewnol. Fodd bynnag, fe nododd y Pwyllgor fod angen cyflwyno adroddiadau mewn llai o amser a sicrhau bod y budd a'r gwerth ychwanegol mwyaf posibl yn cael eu hennill o'r broses archwilio mewnol. Bu hyn yn destun nifer o drafodaethau dilynol ac mae'r trefniadau ar gyfer archwilio mewnol 2009/10 yn cael eu hadolygu.

**Archwilio allanol**

Mae'r Pwyllgor yn fodlon fod perthynas weithio effeithiol wedi'i datblygu o ran archwilio allanol, a bod diwylliant o her adeiladol yn bodoli o fewn y berthynas honno. Yn benodol, bu Swyddfa Archwilio Cymru'n gweithio'n agos ac yn effeithiol gyda staff y Comisiwn i sicrhau bod set gyntaf o gyfrifon y Comisiwn yn cael ei chyflwyno erbyn toriad yr haf yn 2008. Bu'r Pwyllgor yn adolygu argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ystyried ymatebion y rheolwyr a roddwyd. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd hefyd oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru y gellir dibynnu ar y gwaith y mae'r archwilwyr mewnol yn ei wneud mewn meysydd rheolaeth allweddol.

**4. Effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

Cynhaliodd y Pwyllgor ymarfer wedi'i seilio ar restr wirio hunanasesu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i nodi unrhyw feysydd lle gellid gwella gweithrediad y Pwyllgor. Hefyd, bu'r Pwyllgor a'r rheiny a oedd yn bresennol yn cymryd rhan yn E-arolwg Swyddfa Archwilio Cymru i adolygu effeithiolrwydd. Er na wnaethom nodi unrhyw faterion mawr sydd angen mynd i'r afael â nhw, nodwyd nifer o fân faterion a bydd camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain yn 2009/10. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd cyffredinol hefyd oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru ei bod yn ymddangos bod trefniadau priodol yn eu lle.

**5. Edrych Ymlaen**

Mae gan y Pwyllgor raglen waith gytunedig, a'r bwriad eto yw cynnal pum cyfarfod llawn yn ystod blwyddyn ariannol 2009/2010. Ystyrir bod cwblhau'r cyfrifon yn llwyddiannus a'r cynnydd tuag at gwblhau cynllun parhad busnes yn ddau fater o bwys ar gyfer y flwyddyn sydd ar ddod. Bydd y Pwyllgor hefyd yn frwd ei diddordeb yn natblygiad a gweithrediad y gwasanaeth archwilio mewnol.

**6. Casgliad**

Cafodd y Pwyllgor ei ffurfio fis Rhagfyr 2007, ac felly 2008/09 oedd y flwyddyn lawn gyntaf iddo fod ar waith, a'r flwyddyn gyntaf y mae wedi darparu sicrwydd i Gomisiwn y Cynulliad a'r Swyddog Cyfrifyddu ar ei chyfer. Gwnaethom gydnabod y llynedd bod llawer o'r systemau rheolaeth fewnol yn newydd ac y byddai rhoi'r rhain ar brawf a'u hymgorffori yn her allweddol ar gyfer y flwyddyn. Gwnaed cynnydd da, ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod y

**NAFWC 2014 (Papur 6 Rhan 1)**
**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 2008-09**

**Atodiad A**
gwaith y mae'r Swyddog Cyfrifyddu a'i thîm wedi'i wneud i ddatblygu ystod effeithiol o fesurau rheolaeth fewnol ac i sicrhau bod pawb yn y sefydliad trwyddo draw yn deall y rhain ac yn eu defnyddio'n effeithiol. Mae mwy o gynnydd o hyd i'w wneud yn 2009/10. Fodd bynnag, mae yna sylfaen fwyfwy cadarn i adeiladu arni.

Bydd datblygu'r adnodd a'r rhaglen archwilio mewnol hefyd yn her allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd ar ddod. Rydym yn cydnabod bod y gwasanaeth presennol wedi darparu lefel graidd o sicrwydd. Fodd bynnag, os yw'r Comisiwn i gynnal ei ymrwymiad i'r perfformiad "gorau yn y dosbarth", mae arno angen lefel ychwanegol o graffu a her nad oes gan y trefniadau presennol yr adnoddau i'w chyflenwi.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ymddiddori'n frwd yn hyn ac mewn materion perthnasol eraill dros y flwyddyn sydd ar ddod.

**Richard Calvert, Cadeirydd, Cynghorydd Annibynnol**
**Tim Knighton, Cynghorydd Annibynnol**
**Yr Athro Robert Pickard, Cynghorydd Annibynnol**
**William Graham AC, Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad**